Y PWYLLGOR CYFIAWNDER CYMDEITHASOL AC ADFYWIO

ADOLYGIAD POLISI AR GAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU

Cyflwyniad

1. Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 30 Mehefin 2004, darparodd Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau bapur a oedd yn cynnwys dadansoddiad o'r ymatebion a ddaeth i law mewn perthynas â'r adolygiad polisi. Dywedodd Aelodau'r Pwyllgor y byddai'n well ganddynt graffu ar agwedd benodol ar y polisi camddefnyddio sylweddau cyfredol, a'r broses o'i rhoi ar waith, yn hytrach na chanolbwyntio ar faes lle na chafodd polisïau eu datblygu i'r un graddau. Cytunwyd y câi papur arall ei baratoi i helpu'r Aelodau i ddewis maes polisi penodol.

2. Yn **Atodiad 1**, rhoddir braslun o'r prif ddatblygiadau polisi ym maes camddefnyddio sylweddau ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym 1999. Mae'n cynnwys newidiadau deddfwriaethol a strwythurol ar lefel y Cynulliad ac ar lefel Llywodraeth y DU.

3. Yn **Atodiad 2**, rhoddir sylw i'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd, neu waith a wnaed yn ddiweddar, ym maes camddefnyddio sylweddau yng Nghymru. Mae'n cynnwys adolygiadau, prosiectau ymchwil, ymarferion ymgynghori, strategaethau ac archwiliadau gan nifer o wahanol randdeiliaid allweddol.

4. Ar sail Atodiad 1 a 2, dylai fod modd i Aelodau'r Pwyllgor nodi meysydd i graffu arnynt yn ystod yr adolygiad polisi, gan sicrhau eu bod yn ymgorffori yn yr adolygiad waith a wnaed eisoes, yn hytrach na'u bod yn dyblygu'r gwaith hwnnw.

Meysydd arfaethedig ar gyfer adolygiad polisi penodol

5. Isod rhestrir meysydd polisi penodol a nodwyd yn ystod yr ymarfer ymgynghori ar adolygiad polisi'r Pwyllgor ynghylch camddefnyddio sylweddau. Yn ddiweddar, cafodd polisïau eu datblygu a/neu eu hadolygu yn y meysydd hyn. Argymhellir bod yr Aelodau yn dewis **un** o'r pynciau hyn ar gyfer cam cyntaf yr adolygiad polisi.

- **Y trefniadau strategol ar gyfer rhoi polisïau ar waith**

- Partneriaethau Diogelwch Cymunedol fel cynllunwyr a chomisiynwyr gwasanaethau camddefnyddio sylweddau
- Swyddogaethau Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, Timau Gweithredu Camddefnyddio

Sylweddau, Timau Cynghori Rhanbarthol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau a thimau datblygu polisi canolog, ynghyd â'r berthynas rhwng y grwpiau hyn, a threfniadau cydweithio ar draws is-adrannau polisi
- Casglu a rheoli gwybodaeth

- **Darparu gwasanaethau triniaeth yng Nghymru**

- Effaith newidiadau strwythurol (rôl Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, ailstrwythuro'r GIG ac ati) ar y ddarpariaeth
- Datblygiadau o ran fframwaith triniaethau cyfredol Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Effaith Contractau newydd y Meddygon Teulu a'r Fferyllwyr

- **Gwasanaethau i droseddwyr**

- Effaith Mentrau Llywodraeth y Cynulliad megis Cynllun Cymorth y Cyfnod Pontio
- Effaith gwahanol fentrau cyfiawnder troseddol (ee Profion Cyffuriau a Gorchmynion Triniaeth) ar y gwasanaethau a ddarperir
- Uno'r Gwasanaeth Carchar a'r Gwasanaeth Prawf

- **Gwasanaethau triniaeth a chymorth i bobl ifanc o dan 18 oed**

- Gwasanaethau triniaeth i blant sy'n defnyddio sylweddau
- Gwasanaethau i blant mewn teuluoedd lle y defnyddir sylweddau
- Gwasanaethau triniaeth a chymorth i rieni

- **Digartrefedd a chamddefnyddio sylweddau**

- Y camau i roi strategaethau tai a digartrefedd Llywodraeth y Cynulliad ar waith
- Camddefnyddio sylweddau, digartrefedd, troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol

- **Gwasanaethau addysgol / ataliol**

- Y camau i roi Cylchlythyr 17/02 Llywodraeth Cynulliad Cymru ar waith (canllawiau i athrawon a gweithwyr ieuenctid ar addysg ataliol effeithiol)
- Ystod a chwmpas y gwasanaethau addysgol ac ataliol
- Effeithlondeb y rhaglenni

- Ariannu gwasanaethau addysgol ac ataliol

Grwp cyfeirio anffurfiol

6. Mae Aelodau'r Pwyllgor eisoes wedi ystyried sefydlu grwp cyfeirio anffurfiol ar gyfer yr adolygiad polisi i roi cyngor ac arweiniad ynghylch sesiynau casglu tystiolaeth a meysydd penodol i ymchwilio iddynt.

7. Awgrymir y dylai aelodaeth y grwp cyfeirio adlewyrchu ystod o safbwyntiau ac adlewyrchu pwnc penodol yr adolygiad. Yn **Atodiad 3**, ceir rhestr o'r grwpiau rhanddeiliaid a allai fod yn aelodau o'r Grwp. Efallai yr hoffai'r Aelodau awgrymu grwpiau eraill a allai fod yn aelodau o'r Grwp, yn ychwanegol at y rheini a nodwyd yn sgil yr ymarfer ymgynghori.

Darparu tystiolaeth

8. Pan fydd y Pwyllgor wedi dewis pwnc i graffu arno, bydd Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau yn darparu rhestr o'r bobl a gaiff eu gwahodd i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor.

Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau

Medi 2004